

Datganiad I'r Wasg

12pm, 2 Awst 2019

Graffeg i roi copïau o Geiriau Diflanedig i bob ysgol gynradd yng Nghymru drwy gyllido torfol



Mae'r cyhoeddwr annibynnol o Gymru, Graffeg, yn lawnsio ymgyrch cyllido torfol heddiw i roi copi o addasiad Cymraeg *The Lost Words*, Geiriau Diflanedig, gan Robert Macfarlane, Jackie Morris and Mererid Hopwood, i bob ysgol gynradd yng Nghymru.

Mae *Geiriau Diflanedig*, a ddechreuodd fel ymateb i ddiflaniad geiriau cyffredin o fyd natur o eiriadur plant, yn amlygu'r ffaith fod yr un geiriau yn diflannu o'n hiaith gyffredin yma yng Nghymru, gan ddatgelu'r un datgysylltiad rhwng pobl a natur. Mae addasiad sensitif Mererid o swyn-gerddi acrostig Robert Macfarlane yn cyfleu o'r newydd hud a lledrith cynhenid eu pwnc, gan ein hannog i ymgysylltu o'r newydd â byd natur drwy roi bywyd i'r geiriau. Mae lluniau cyfoethog Jackie Morris yn cyd-fynd â phob cerdd, gan greu trysor gweledol i'w fwynhau am genedlaethau i ddod.

Ers ei gyhoeddi ym mis Hydref 2017, mae *The Lost Words* wedi dal dychymyg llawer o ddarllenwyr, gyda nifer fawr o gynlluniau cyllido torfol llwyddiannus yn sicrhau bod miloedd o ysgolion ar draws y DU yn cael copïau ohono. Mae Graffeg yn gobeithio codi £16,700 i dalu cost rhoi copi o ***Geiriau Diflanedig*** i bob un o'r 1,287 o ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae Graffeg yn rhedeg yr ymgyrch yma fel menter gwbl ddielw gyda'r holl arian a godir yn talu am gost uned y llyfr ynghyd â chostau dosbarthu i ysgolion.

Mae'r ymgyrch cyllido torfol wedi cael ei hyrwyddo gan Jackie Morris sy'n rhoi gwaith celf wreiddiol fel cymhellion ychwanegol i bobl roi at yr ymgyrch. Ymhlith y cymhellion mae copïau o Geiriau Diflanedig wedi'u llofnodi gan y tri chrëwr a phaentiadau Dwrgi gwreiddiol gan Jackie Morris. Dywedodd Jackie Morris 'Rwy'n gobeithio y bydd ein llyfr – fy un i, Robert a Mererid – yn cyrraedd pob ysgol yng Nghymru.

I roi i ymgyrch 'Geiriau Diflanedig i bob ysgol gynradd yng Nghymru' ymwelwch â thudalen Crowdfunder: www.crowdfunder.co.uk/geiriau-diflanedig-for-primary-schools-in-wales

 facebook.com/graffegbooks  [@graffeg_books](https://twitter.com/graffeg_books)

Graffeg Limited. Sales, Distribution and Accounts: 24 Stradey Park Business Centre, Mwrwg Road, Llangennech, Llanelli SA14 8YP Wales UK. Tel: 01554 824 000 croeso@graffeg.com www.graffeg.com.

Design and Marketing: 15 Neptune Court, Ocean Way, Cardiff Bay CF24 5PJ Wales, UK. Tel: 07970 010655

Registered Number: 04633042. Registered Cardiff as above. Graffeg publish illustrated books and gift stationery.

Geiriau Diflanedig (CC. Pris £25) yn cyhoeddi ar 10 Hydref 2019.

Mae Mererid Hopwood a Jackie Morris ar gael i'w cyfweid. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Megan Farr neu Daniel Williams ar media@graffeg.com neu 02922 404971.

Diwedd

Nodiadau i olygyddion

Mae **Jackie Morris** yn awdur rhyngwladol, hynod boblogaidd a llwyddiannus. Mae'n byw mewn bwthyn bach ar arfordir Sir Benfro, ond daw o Birmingham yn wreiddiol. Ymwelodd Jackie â Sir Benfro am un penwythnos dros ugain mlynedd yn ôl – ac nid adawodd byth. Mae hi'n rhannu ei chartref gyda'i dau blentyn, ei chathod annwyl, a'i dau gi. Mae Graffeg wedi cyhoeddi nifer o lyfrau plant Jackie, gan gynnwys *Cat Walk*, *Queen of the Sky*, *The Quiet Music of Gently Falling Snow*, *The Ice Bear*, *The Snow Leopard* a *Tell Me A Dragon*. Graffeg hefyd fydd yn cyhoeddi *Ga' i Hanes Draig?*, sef addasiad Mererid Hopwood o *Tell Me a Dragon*, ym Medi 2019.

Ganwyd **Mererid Hopwood** yng Nghaerdydd. Ar ôl ennill gradd mewn Sbaeneg ac Almaeneg o Brifysgol Aberystwyth, enillodd ddoethuriaeth mewn Llenyddiaeth Almaeneg o Goleg y Brifysgol, Llundain cyn mynd ymlaen i ddarlithio mewn Almaeneg ym Mhrifysgol Abertawe. Ers hynny mae wedi dysgu ieithoedd mewn ysgolion yng Nghymru ac ar hyn o bryd mae'n Athro ym Mhrifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant. Mererid oedd y ferch gyntaf i ennill y Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol (2001) a dwy flynedd yn ddiweddarach enillodd hi'r Goron. Enillodd ei nofel *O Ran* y Fedal Ryddiaith yn 2008. Hi oedd Bardd Plant Cymru yn 2005 ac enillydd Llyfr y Flwyddyn (barddoniaeth) yn 2016 gyda'i chyfrol, *Nes Draw*.

Robert Macfarlane yw awdur *Mountains of the Mind*, *The Wild Places*, *The Old Ways*, *Landmarks*, a *The Lost Words*, a grëwyd ar y cyd gyda Jackie Morris. Enillodd *Mountains of the Mind* wobwr y Guardian First Book Award a Gwobr Somerset Maugham, ac enillodd *The Wild Places* wobwr Boardman-Tasker. Addaswyd y ddau lyfr ar gyfer teledu gan y BBC. Enillodd *The Lost Words* wobwr *Books Are My Bag Beautiful Book Award* a Llyfr y Flwyddyn yng Ngŵyl y Gelli. Mae'r llenor yn Gymrawd o Goleg Emmanuel, Caergrawnt, ac mae'n ysgrifennu ar faterion amgylcheddol, llenyddiaeth a theithio ar gyfer nifer o gyhoeddiadau, gan gynnwys y *Guardian*, *Sunday Times* a'r *New York Times*.

Mae gan **Graffeg** enw da am safon ei gynnyrch a'i waith dylunio ac mae'n cyhoeddi llyfrau ffuglen i blant ac oedolion, llyfrau ffeithiol a deunydd ysgrifennu hardd gan awduron a darlunwyr sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol. Ymhlith yr awduron y mae Graffeg yn cyhoeddi eu gwaith y mae Jackie Morris, Nicola Davies, James Mayhew a Malachy Doyle, ac mae'r cyhoeddwr hefyd yn ymwneud â phrosiectau newydd, cyffrous gydag awduron fel Zeb Soanes o'r BBC (awdur *Gaspard the Fox*) a'r cerddor poblogaidd Nick Cope. O blith y teitlau plant llwyddiannus, enwyd *Perfect* gan Nicola Davies a Cathy Fisher ar restr hir y CILIP Kate Greenaway Medal 2017, ac enwebwyd *The Pond*, eu cydweithrediad dilynol, ar gyfer yr un wobwr yn 2018, ynghyd â *The Quiet Music of Gently Falling Snow* gan Jackie Morris. Dewiswyd *The Pond* hefyd gan *Kirkus Reviews*, cyfnodolyn o'r Unol Daleithiau, fel un o'i *Best Books* yn 2017.